



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Crynodeb o'r ymatebion i'r
ymgyngoriad ar y newidiadau
arfaethedig i ffiniau'r Ardaloedd
Draenio Mewnol

Gorffennaf 2017

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Y Fethodoleg Ymgynghori ar gyfer y Newidiadau Arfaethedig i Ffiniau Ardaloedd Draenio Mewnol	3
3. Crynodeb o'r ymatebion	4
4. Trosolwg o'r prif faterion a godwyd a'n hymateb ni	6
5. Y Camau Nesaf	8

1. Cyflwyniad

Fel arfer, gwelir ardaloedd draenio mewnol mewn tir isel lle y caiff y ffiniau eu pennu gan nodweddion ffisegol, nid gwleidyddol, ac fe gânt eu gweithredu yn unol â Deddf Draenio Tir 1991. Cyfoeth Naturiol Cymru, y bwrdd sy'n gweithredu ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru, sy'n gyfrifol yn y lle cyntaf am reoli lefelau dŵr a lleihau perygl llifogydd mewn ardaloedd draenio mewnol, trwy reoli sianeli draenio, cyrsiau dŵr arferol, gorsafoedd pwmpio a strwythurau rheoli. Mae hyn yn bosibl trwy daliadau ardrethi draenio gan berchnogion tir o fewn pob ardal draenio mewnol. Caiff ardrethi draenio eu gosod bob blwyddyn gan fwrdd pob ardal draenio mewnol. Mae'r ardrethi yn amrywio, yn ôl ansawdd ac arwynebedd y tir o fewn pob ardal draenio mewnol. Yn ogystal â'r ardrethi draenio, gwneir taliad blynyddol i'r bwrdd gan yr awdurdod lleol lle mae'r ardal draenio mewnol wedi'i lleoli. Gelwir hyn yn ardoll arbennig a chaiff hon hefyd ei gosod bob blwyddyn gan y bwrdd.

Gall ansawdd y tir, neu'r defnydd ohono, newid dros amser ac mae'n bosibl na fydd parseli o dir a oedd angen bod yn rhan o ardal draenio mewnol ar un adeg yn addas bellach, ac i'r gwrthwyneb. Gan ystyried hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal adolygiad o ffiniau cyfredol 13 o ardaloedd draenio mewnol¹ yng Nghymru gyda'r nod o adolygu'r ffiniau hynny lle y bo'n briodol. Roedd yr asesiad o addasrwydd y ffiniau, a'r diwygiadau arfaethedig a ddatblygwyd, yn seiliedig ar bedwar prif ffactor: llifogydd, draenio tir, bioamrywiaeth, a thystiolaeth a gwybodaeth a gafwyd yn lleol.

Daeth canlyniadau'r adolygiad hwn i'r casgliad bod gan dair ardal draenio mewnol ffiniau addas, a chynigiwyd newidiadau i ffiniau deg ardal draenio mewnol.

Mae cyfanswm o 14 o ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru, ond penderfynwyd ar gyfnod cynnar o'r adolygiad i beidio â chynnwys Ardal Draenio Mewnol Cors Fochno oherwydd astudiaethau parhaus ar reoli gwarchodfa biosffer UNESCO, SoDdGA ac ACA Cors Fochno, sydd yn yr ardal draenio mewnol hon.

2. Y Fethodoleg Ymgynghori ar gyfer y Newidiadau Arfaethedig i Ffiniau Ardaloedd Draenio Mewnol

Ar 6 Mawrth 2017, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddogfennau ar ein gwefan yn nodi'r newidiadau arfaethedig i ffiniau deg ardal draenio mewnol er mwyn ymgynghori arnynt. Roedd mapiau ynghlwm â phob un o'r dogfennau hyn yn dangos y newidiadau arfaethedig. Mae'r rhain yn disgrifio lle y byddai'r ardal draenio mewnol naill ai'n ehangu i gynnwys mwy o dir, neu'n lleihau mewn maint gan eithrio parseli o dir.

Anfonwyd llythyr at yr 1,068 o dalwyr ardrethi yn y deg ardal draenio mewnol lle y cynigiwyd gwneud newidiadau i'r ffiniau yn eu hysbysu o fanylion yr ymgynghoriad, ynghyd â negeseuon e-bost i dalwyr ardrethi a oedd â chyfeiriad y gwyddys amdano. Cafodd awdurdodau lleol ac undebau ffermwyr hefyd eu hysbysu.

Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal am chwe wythnos rhwng 6 Mawrth a 17 Ebrill 2017, ac roedd yn cynnwys y cwestiynau canlynol er ystyriaeth:

Cwestiwn Ymgynghori 1

A ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r ardal draenio mewnol? (Ydw / Nac ydw).

Os nad ydych, eglurwch beth sydd ar goll yn eich tyb chi.

Cwestiwn Ymgynghori 2

Os gwnaethoch chi ateb 'Nac ydw' i gwestiwn 1, ar ba ffactor mae'r ateb hwn yn seiliedig:

Perygl llifogydd
Draenio tir
Bioamrywiaeth
Gwybodaeth leol
Arall

Eglurwch eich rheswm

Cwestiwn Ymgynghori 3

A oes unrhyw newidiadau ychwanegol yr ydych yn credu y dylid eu hystyried?

Oes / Nac oes

Cwestiwn Ymgynghori 4

Os gwnaethoch ateb 'Oes' i gwestiwn 3, eglurwch yn fanwl gan ddarparu gwybodaeth ategol (mapiau, lluniau ac ati) lle bo'n bosibl.

Cwestiwn Ymgynghori 5

A oes gennych chi unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau?

Oes / Nac oes

Cwestiwn Ymgynghori 6

Os gwnaethoch chi ateb 'Oes' i'r cwestiwn uchod, eglurwch yn fanwl a darparwch wybodaeth ategol (mapiau, lluniau ac ati) lle bo'n bosibl.

Gellir gweld yr ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i ffiniau ardaloedd draenio mewnol trwy'r dudalen ganlynol:

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/consultations/our-own-consultations-closed/internal-drainage-districts-boundary-review-consultation/?lang=cy>

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i ffiniau ardaloedd draenio mewnol ac yn nodi sut yr ydym wedi ystyried yr ymatebion hynny yn y cynigion terfynol.

3. Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 21 o ymatebion i'n hymgyngoriad ar y newidiadau arfaethedig i ffiniau ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru, a ddaeth o 16 o sefydliadau a phartïon â buddiant. Mae'r ddeddfwriaeth ar ddiogelu data yn ein hatal rhag enwi unigolion nad ydynt wedi rhoi caniatâd i'w manylion gael eu cyhoeddi. Gellir cael copi o'r ymatebion drwy wneud cais.

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad wedi'u crynhoi isod:

Ardal Draenio Mewnol Powysland – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd tri ymateb:

- Roedd dau ymatebydd yn cytuno â'r cynigion.

- Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r cynigion, ar sail perygl llifogydd, a darparodd wybodaeth i egluro'r newidiadau ychwanegol a awgrymwyd ganddo.

Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd dau ymateb:

- Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r cynigion.
- Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r cynigion, ar sail perygl llifogydd, draenio tir a bioamrywiaeth. Darparodd wybodaeth i egluro ei resymau.
- Ni wnaeth yr un o'r ddau ymatebydd awgrymu newidiadau ychwanegol.

Ardal Draenio Mewnol Afon Ganol – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd un ymateb:

- Roedd yr ymatebydd yn anghytuno â'r cynigion, ar sail perygl llifogydd, draenio tir a gwybodaeth leol. Darparodd wybodaeth i egluro ei resymau.
- Ni wnaeth yr ymatebydd awgrymu newidiadau ychwanegol.

Ardal Draenio Mewnol Afon Conwy – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd dau ymateb:

- Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r cynigion.
- Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r cynigion, ar sail perygl llifogydd a ffactor 'arall'. Awgrymodd yr ymatebydd newidiadau ychwanegol, a darparodd wybodaeth i egluro ei resymau.

Ardal Draenio Mewnol Glaslyn Pencyflog – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd dau ymateb:

- Roedd y ddau ymatebydd yn cytuno â'r cynigion.
- Ni wnaeth yr un o'r ddau awgrymu newidiadau ychwanegol.

Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd dau ymateb:

- Roedd y ddau ymatebydd yn cytuno â'r cynigion.
- Ni wnaeth yr un o'r ddau awgrymu newidiadau ychwanegol.

Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd pedwar ymateb:

- Roedd pob ymatebydd yn cytuno â'r cynigion.
- Awgrymodd dau ymatebydd newidiadau ychwanegol, a gwnaethant ddarparu gwybodaeth i egluro eu rhesymau.

Ardal Draenio Mewnol Gwy Isaf – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd dau ymateb:

- Roedd y ddau ymatebydd yn cytuno â'r cynigion.
- Ni wnaeth yr un o'r ddau awgrymu newidiadau ychwanegol.

Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd un ymateb:

- Roedd yr ymatebydd yn cytuno â'r cynigion.
- Ni wnaeth yr ymatebydd awgrymu newidiadau ychwanegol.

Ardal Draenio mewnol Ardudwy – crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd dau ymateb:

- Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r cynigion.
- Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r cynigion, ar sail perygl llifogydd a draenio tir. Darparodd wybodaeth i egluro ei resymau.
- Ni wnaeth yr un o'r ddau ymatebydd awgrymu newidiadau ychwanegol.

4. Trosolwg o'r prif faterion a godwyd a'n hymateb ni

Isod, darperir crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer pob ardal draenio mewnol yn ei thro, a chyflwynir y camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i gadarnhau'r newidiadau arfaethedig i ffiniau'r ardaloedd draenio mewnol:

Ardal Draenio Mewnol Powysland

Ni chafodd y ddau newid arfaethedig eu herio, felly byddant yn cael eu cynnwys yn ein newidiadau arfaethedig terfynol i'r ffiniau. Cyflwynwyd awgrym gan ymgynghorai i gynyddu storio a lleihau cyflymder y llif yn y dalgylch uwch sy'n effeithio ar yr ardal draenio mewnol hon. Ni fyddwn yn cynyddu maint yr ardal draenio mewnol trwy ehangu'r ffiniau i gynnwys yr ucheldiroedd hyn, gan fod ardaloedd draenio mewnol yn cael eu sefydlu yn benodol i reoli'r lefelau dŵr mewn ardaloedd isel. Gellir dim ond gwneud gwaith cynnal a chadw a rheoli asedau ardal draenio mewnol o fewn ffin yr ardal draenio mewnol, felly ni all y gwaith hwn gael ei wneud o fewn cylch gwaith yr ardal draenio mewnol. Bydd yr argymhellion a'r wybodaeth a ddarperir yn cael eu cynnwys ym meysydd gwaith eraill Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n lleihau perygl llifogydd trwy weithio yn rhannau uchaf dalgylchoedd afonydd, gan gynnwys Afon Hafren, er mwyn cynyddu eu gallu i storio dŵr a lleihau swm y dŵr ffo yn ystod stormydd.

Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen

Anghytunodd ymgynghorai â'n cynnig i gynnwys tir ychwanegol yn yr ardal draenio mewnol hon. Nododd yr wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ymgynghorai sut yr oedd y tir yr oeddem yn cynnig ei gynnwys o fewn yr ardal draenio mewnol dim ond o dan ddŵr pan fydd llif uchel iawn gan Afon Glaslyn a'i bod yn gorlifo, a bod y tir hwn mewn gwirionedd felly yn helpu i leihau'r perygl llifogydd i rannau o'r ardal draenio mewnol lle y mae tai a ffyrdd yn ogystal â thir fferm. Gwnaeth yr unigolyn ddisgrifio sut nad yw'r tir yn elwa o'r system o ffosydd o fewn yr ardal draenio mewnol, nad yw'n gysylltiedig â hi, ac nad yw'n dibynnu ar ffosydd yr ardal draenio mewnol i reoli lefel y dŵr. Pwysleisiodd yr ymgynghorai y gallai mwy o waith cynnal a chadw ar systemau draenio'r tir hwn fod yn niweidiol i ecosystemau sensitif, a diraddio ardaloedd sydd wedi'u dynodi fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn sylweddol, yn arbennig y coetir gwlyb llifwaddodol. Arfarnwyd y sylwadau hyn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru a Grŵp Cynghori Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen. Cytunodd y ddau â'r ymgynghorai ac, o ganlyniad, ni fyddwn yn cynnig cynnwys y tir hwn mwyach yn yr ardal draenio mewnol.

Cytunodd yr holl ymgynghoreion i dynnu'r parcel bychan o dir o'r ardal draenio mewnol hon a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, felly bydd hyn yn cael ei gynnwys yn ein cynigion terfynol ar gyfer y newidiadau i ffiniau'r ardal draenio mewnol hon.

Ardal Draenio Mewnol Afon Ganol

Darparodd yr ymgynghorai resymau pam ei fod yn anghytuno â'n cynnig i dynnu tir o'r ardal draenio mewnol hon. Adroddodd yr ymgynghorai broblemau â llifogydd o amgylch y cwrs dŵr a sianelwyd o dan y ffordd ger ffin y coleg / cwrs golff. Gyda'r newid arfaethedig i'r ffin, awgrymwyd y gallai fod angen dyblygu ymdrechion, gyda'r ardal draenio mewnol yn parhau i fynd i'r afael â phroblemau ar un ochr o'r ffordd a'r cyngor ar yr ochr arall. Awgrymodd mai'r ardal draenio mewnol fyddai yn y sefyllfa orau i gydlynu'r gwaith cynnal a chadw oedd ei angen i fynd i'r afael â'r llifogydd hyn.

Rydym wedi ystyried yr wybodaeth hon ac yn cytuno â'r ymgynghorai. Felly, ni fyddwn yn cynnig tynnu'r tir hwn o'r ardal draenio mewnol fel y gall y tir gael ei reoli'n effeithlon. Bydd hyn yn golygu na fydd unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i ffin yr ardal draenio mewnol hon.

Ardal Draenio Mewnol Afon Conwy

Argymhellodd ymgynghorai ein bod yn tynnu parcel unigol o dir o'r ardal draenio mewnol yn ogystal â'r rhannau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad gan fod y tir dan ddŵr pan fydd achosion o law trwm. Mae hyn wedi'i ystyried, ac mae'r awgrym i dynnu'r rhan ychwanegol hon o dir wedi'i wrthod gan ei bod hi'n parhau i gael budd o weithrediad yr ardal draenio mewnol trwy gael ei diogelu rhag popeth ond y digwyddiadau llifogydd mawr.

Bydd y parceli tir y cynigir i'w tynnu allan yn cael eu cyflwyno yn y cynigion terfynol.

Ardal Draenio Mewnol Glaslyn Pencyflog

Cytunodd y rhai hynny a ymatebodd â'r cynnig i dynnu rhan unigol fechan o'r ardal draenio mewnol allan, felly bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y cynigion terfynol i addasu ffin yr ardal draenio mewnol.

Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion

Cytunodd y rhai hynny a ymatebodd â'r cynnig i dynnu nifer o rannau unigol o'r ardal draenio mewnol allan, felly bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y cynigion terfynol i addasu ffin yr ardal draenio mewnol.

Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg

Cytunodd yr holl ymatebwyr â'r cynnig i eithrio rhan fechan o'r ardal draenio mewnol, felly bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y cynigion newid terfynol.

Argymhellwyd bod dwy ardal ychwanegol yn cael eu cynnwys yn yr ardal draenio mewnol, bob un gan wahanol ymgynghoreion. Awgrymodd yr ymgynghorai fod angen i'r ardal draenio mewnol wneud gwaith ar reoli lefel y dŵr mewn un o'r ardaloedd hyn oherwydd y perygl llifogydd. Ymchwiliwyd i'r awgrym hwn a gwnaethom gytuno â sylwadau'r ymgynghorai, felly byddwn yn ehangu'r ardal draenio mewnol i gynnwys y tir hwn yn ein newidiadau arfaethedig i'r ffiniau. Roedd yr ail ardal ychwanegol a awgrymwyd gan ymgynghorai i gael ei chynnwys yn yr ardal draenio mewnol hon hefyd oherwydd perygl llifogydd. Wedi ymchwilio, canfuwyd na fyddai'r ardal hon yn elwa o gael ei chynnwys yn yr ardal draenio mewnol gan ei bod eisoes yn cael ei hamddiffyn rhag llifogydd.

Ardal Draenio Mewnol Gwy Isaf

Cytunodd y rhai hynny a ymatebodd â'r cynnig i dynnu tair rhan unigol fechan o'r ardal draenio mewnol allan, felly bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y cynigion terfynol.

Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog

Cytunodd y rhai hynny a ymatebodd â'r cynnig i dynnu nifer o rannau o'r ardal draenio mewnol allan, felly bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y cynigion terfynol.

Ardal Draenio Mewnol Ardudwy

Rydym wedi ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gan ymgynghorai a oedd yn anghytuno â'n cynnig i dynnu parcel o dir o'r ardal draenio mewnol. Nododd ei fod eisiau i'r tir barhau i fod yn yr ardal draenio mewnol fel bod modd rheoli'r draenio a'r perygl llifogydd. Rydym yn cytuno â'i gyflwyniad ac ni fyddwn yn cynnig tynnu'r parcel hwn o dir allan yn ein cynigion terfynol. Cawsom gytundeb yr ymgynghoreion i dynnu'r parcel arall o dir arfaethedig allan o'r ardal draenio mewnol, felly bydd y cynnig hwn yn cael ei gyflwyno yn y cynigion terfynol.

5. Y Camau Nesaf

Byddwn yn gwneud yr addasiadau sydd eu hangen i ffiniau'r ardaloedd draenio mewnol a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, ar sail yr ymatebion a ddaeth i law, fel y nodwyd uchod. Wedi hyn, bydd y cynigion terfynol hyn yn cael eu cyflwyno fel cynllun ffurfiol ar gyfer addasu ffiniau'r ardaloedd draenio mewnol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig o dan Adran 3(1) o Ddeddf Draenio Tir 1991. Pan fydd y cynllun wedi'i gyflwyno, byddwn yn ei gyhoeddi, yn cynghori pobl ar le y gellir ei archwilio, ac yn anfon copiâu i bob awdurdod lleol a effeithir. Bydd gan bobl fis wedi hyn i gyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd y Cabinet. Wedi hynny, bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried y cynllun ac unrhyw sylwadau sydd wedi dod i law. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet wedyn, yn ôl ei ddymuniad, yn gwneud gorchymyn yn cadarnhau'r cynllun, yn unol â'r Ddeddf Draenio Tir. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru weinyddu'r newidiadau i'r ffiniau wedyn trwy addasu'r ardrethi draenio a'r ardollau arbennig yn unol â hynny.

Mae croeso i'r rhai hynny sy'n dymuno mynd ar ôl eu hymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, neu'r pwyntiau a nodwyd yn y ddogfen hon, mewn mwy o fanylder gysylltu â ni.

Cysylltwch â:
James West
Adolygiad o Ffiniau Ardaloedd Draenio Mewnol
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Penrhosgarnedd
Bangor
LL57 2DW

E-bost: IDDboundarychange@naturalresourceswales.gov.uk
Ffôn: 0300 065 3000



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhychu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru